

CYNGOR SIR Y FFLINT – GWASANAETHAU YMGYNGHORIAETH TELERAU AC AMODAU'R WEFAN

- (1) **Y CYNGOR** (fel ag y'i diffinnir yn yr archeb brynu); a'r
- (2) **YMGYNGHORYDD / CONTRACTWR / GWERTHWR** (fel ag y'u diffinnir yn yr archeb brynu

Adnabyddir pob un fel “**Parti**” a gyda'i gilydd “**Partïon**” yn y Contract hwn.

- i.) Mae'r Cyngor yn dymuno derbyn y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a osodwyd gan y Cyngor ac mae gan yr Ymgynghorydd y sgiliau technegol, yr arbenigedd a'r adnoddau penodol i'w darparu ac;
- ii.) Mae'r Ymgynghorydd wedi cyflwyno cynnig i gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth; ac
- iii.) Yn dibynnu ar y sylwadau a wnaed gan yr Ymgynghorydd, mae'r Cyngor yn bwriadu penodi'r Ymgynghorydd i wneud a chyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth; ac
- iv.) Mae'r Ymgynghorydd yn cytuno i benodi unigolion penodol o'i gwmni i gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ac yn cytuno mai'r unigolion penodol fydd y Staff Allweddol o dan y Contract hwn;
- v.) Gyda'r bwriad o greu Contract sy'n gyfreithiol rwymol, mae'r Partïon wedi cytuno ar delerau rhyngddynt i gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth fel y'u gosodwyd o dan y Contract hwn a;
- vi.) Y Contract hwn yw'r cytundeb cyfan rhwng y Partïon o ran testun y Contract ac mae'n disodli'r holl negodiadau, sylwadau ac ymrwymadau blaenorol, p'un ai'n ysgrifenedig neu ar lafar rhwng y Partïon, ar wahân i fod y Partïon yn cytuno i beidio ag eithrio unrhyw rywmedigaeth o safbwynt camliwiad twyllodrus.

1. DEHONGLIAD

Yn y Contract hwn bydd gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

“Cymeradwyaeth”	yn golygu cymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.
“Swyddog Awdurdodedig”	yn golygu y Sawl a benodwyd gan y Cyngor i arfer ei hawliau a'i bwerau o dan y Contract hwn, ac a all wneud penderfyniadau o dan y Contract. Ni fydd hyn yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw un arall o hawliau neu rwymedigaethau'r Cyngor.
“Dileu Data Ardystiedig”	yn golygu distrywio data ardystiedig drwy wasanaeth a all ardystio fod y data a ddelir ar systemau TG wedi'i ddileu megis dull meddalwedd o drosysgrifo'r data gyda'r nod o ddinistrio'r llwyr yr holl ddata electronig perthnasol sy'n byw ar yriant disg caled neu gyfryngau digidol eraill.
“Newid yn y Gyfraith”	yn golygu dod i rym neu ddiddymu (heb ailddeddfiad neu gydgrynhoi) yng Nghymru/Lloegr unrhyw Gyfraith, neu unrhyw welliant neu amrywiad i unrhyw Gyfraith, neu unrhyw ddyfarniad gan lys barn sy'n newid cysyniad rhwymol yng Nghymru/Lloegr ym mhob achos ar ôl dyddiad y Contract hwn.
“Dyddiad Cychwyn”	yn golygu dyddiad cychwyn y gwasanaethau h.y. dyddiad yr archeb brynu.
“Gwybodaeth Gyfrinachol”	yn golygu unrhyw wybodaeth a ddynodwyd fel cyfrinachol gan y naill Barti neu'r llall mewn ysgrifen neu y dylid ei hystyried yn gyfrinachol (ym mha fodd bynnag y'i cyflëir neu ar ba gyfryngau bynnag y caiff ei storio) yn cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â materion busnes eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygu gwasanaethau, cyfrinachau masnach, Eiddo Deallusol, gwybodaeth ymarferol arbennig, staff, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill Barti neu'r llall, holl ddata personol a data personol sensitif o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018.
“Contract”	yn golygu yr Amodau hyn a'r archeb brynu.
“Cyfnod y Contract”	yn golygu y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn i'r Dyddiad Terfyn.
“Pris y Contract”	yn golygu y swm i'w thalu gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd.
“Rheolwr Ymgynghori”	yn golygu y Sawl a benodwyd gan yr Ymgynghorydd i arfer ei hawliau a'i bwerau o dan y Contract hwn a all wneud penderfyniadau o dan y Contract, heb fod angen i'r mater gael ei uwchgyfeirio yn Sefydliad yr Ymgynghoyrdd. Ni fydd hyn yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw rai eraill o hawliau neu rwymedigaethau'r Ymgynghoyrdd.
“Gwasanaethau Ymgynghoriaeth”	yn golygu y gwasanaethau sydd i'w darparu i'r Cyngor gan yr Ymgynghorydd yn unol â'r Contract hwn, fel y gosodwyd gan y Cyngor ac yn unol ag unrhyw gynnig a wnaed gan yr Ymgynghorydd.

“Rheolydd Data”	yr ystyr sydd iddo yn y Ddeddf Diogelu Data.
“Digwyddiad Colli Data”	unrhyw ddigwyddiad sy’n arwain, neu a all arwain, at fynediad anawdurdodedig at Ddata Personol a ddelir gan y Rheolydd o dan y Contract hwn, a/neu golled wirioneddol neu bosibl a/neu ddistrywio Data Personol a thorri'r Contract hwn.
“Prosesydd Data”	yr ystyr sydd iddo yn y Ddeddf Diogelu Data.
“Deddf Diogelu Data” neu “DPA”	yn golygu Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Diogelu Data 2018.
“Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data”	asesiad gan y Cyngor o effaith y prosesu a ragwelir ar warchodaeth y Ddeddf Diogelu Data.
“Deddfwriaeth Diogelu Data”	yn golygu y DPA, Cyfarwydddeb Diogelu Data yr UE 95/46/EC, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Rheoliadau Telathrebu (Arfer Busnes Cyfreithlon) (Ymyrryd â Chyfathrebu) 2000, Cyfarwydddeb Diogelu Data Cyfathrebu Electronig 2002/58/EC), Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwydddeb CE) 2003, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Gyfarwydddeb Gorfodi'r Gyfraith cyn belled â'i bod yn gysylltiedig â phrosesu data a phob cyfraith a rheoliad perthnasol sy'n gysylltiedig â phrosesu data personol a phreifatrwydd, yn cynnwys lle'n briodol y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.
“Testun Data”	yr ystyr sydd iddo yn y Ddeddf Diogelu Data.
“Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun”	yn golygu cais a wnaed gan Destun Data yn unol â'r hawliau a roddwyd yn unol â'r DPA i gael mynediad i'w Data Personol eu hunain.
“Gwiriadau DBS”	yn golygu gwiriadau y mae'n rhaid i'r Ymgynghorydd eu gwneud yn unol â rheoliadau o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
“Anghydfod”	unrhyw anghydfod, anghytundeb neu amheuaeth am ddehongliad sy'n deillio o'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn cynnwys unrhyw anghydfod, anghytundeb neu amheuaeth am ddehongliad sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau neu unrhyw fater lle mae'r Contract hwn yn cyfarwyddo'r partion i ddatrys problem drwy gyfeirio at Gymal 12 o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod.
“Dyddiad Terfyn”	yn golygu y dyddiad a bennwyd gan y Cyngor pan mae'r Contract i ddod i ben oni bod Cyfnod y Contract wedi'i ymestyn neu'r Contract wedi'i derfynu yn unol â thelerau ac amodau'r Contract.

“Digwyddiad Force Majeure”	yn golygu unrhyw achos neu ddigwyddiad sydd y tu allan i reolaeth resymol y Parti dan sylw ac na ellir eu priodoli i unrhyw weithredu neu fethiant i weithredu'n ataliol gan y Parti hwnnw, yn cynnwys • gweithred o ryfel; • gweithred gan Dduw; • gorchymyn Llywodraeth; • terfysgoedd • terfysg cyhoeddus • unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth pa Barti bynnag yr effeithir arno ac na ellid bod wedi'i ragweld gyda rhagofal rhesymol.
“Arferion Da'r Diwydiant”	yn golygu safonau, arferion, dulliau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a graddfa'r medr a'r gofal, diwydrwydd, doethineb a rhagofal a ddisgwyliid yn rhesymol ac yn arferol gan unigolyn neu gorff medrus a phrofiadol sy'n ymgymryd â'r un math o dasg o dan yr un amgylchiadau neu rai tebyg.
“Gwybodaeth”	Fel yn adran 84 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
“Hawliau Eiddo Deallusol”	yn golygu patentau a dyfeisiau (yn cynnwys unrhyw hawliau ynddynt ac iddynt); nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, enwau masnachu a busnes (yn cynnwys hawliau mewn ewyllys da); hawliau dylunio; hawliau mewn neu i enwau parth rhyngwrwyd a chyfeiriadau gwefan; hawliau topograffeg lled-ddargludydd; hawlfraint (yn cynnwys hawlfraint yn y dyfodol); hawliau cronfa ddata; hawliau mewn ac i Wybodaeth Gyfrinachol (yn cynnwys cyfrinachau masnach); a phob hawl ddeallusol arall, ym mhob achos sy'n bodoli ar unrhyw adeg yn unrhyw ran o'r byd (p'un ai wedi neu heb gofrestru) ac unrhyw: (a) geisiadau yn yr arfaeth neu hawliau i wneud cais am gofrestrïadau ar unrhyw un o'r hawliau hyn y gellir eu cofrestru mewn unrhyw wlad neu awdurdodaeth; a (b) hawliau tebyg neu gyfatebol i unrhyw un o'r hawliau hyn mewn unrhyw awdurdodaeth;
“Staff Allweddol”	yn golygu yr unigolion hynny a bennwyd gan yr Ymgynghorydd i gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth.
“Cyfraith”	yn golygu unrhyw Ddeddf Seneddol berthnasol, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adan 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978, arfer yr uchelfraint frenhinol, hawl gymunedol orfodadwy o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, polisi rheoleiddiol, canllawiau neu god y diwydiant, dyfarniad llys barn berthnasol, neu gyfarwydddebau neu ofynion y mae'r Ymgynghorydd yn rhwymol i gydymffurfio â nhw.

“Data Personol”	yn golygu unrhyw ddata a allai o bosibl adnabod unigolyn penodol, neu y gellir ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng un person a'r llall ac y gellir ei ddefnyddio i ddad-anonymeiddio data dienw ac fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data a Deddfwriaeth Diogelu Data.
“Gweithredoedd Gwaharddedig”	mae'r canlynol yn weithredoedd gwaharddedig: (a) cynnig, addo neu roi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw un sy'n gweithio neu a gyflogir gan y Cyngor fantais ariannol neu arall i: • gymell y person hwnnw i wneud swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol yn amhriodol; neu • wobrwyo'r person hwnnw am wneud swyddogaeth neu weithgaredd yn amhriodol; (b) gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw fantais ariannol neu arall fel cymhelliant neu wobwr am wneud swyddogaeth neu weithgaredd mewn cysylltiad â'r Contract Ymgynghoriaeth hwn yn amhriodol; (c) cyflawni trosedd: • o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010; • o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015; • o dan droseddau creu deddfwriaeth; • sy'n ymwneud â gweithredoedd twyllodrus; yn y gyfraith gyffredin sy'n gysylltiedig â gweithredoedd twyllodrus yn gysylltiedig â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall gyda'r Cyngor (d) twyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo'r Cyngor neu (e) fethu â chydymffurfio ag Adran 146 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992; neu (f) fethu â thalu'r isafswm cyflog cenedlaethol yn unol â Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1996 a'r rheoliadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny.
“Mesurau Diogelu”	mesurau technegol a sefydliadol priodol a all gynnwys: rhoi dan ffugenw ac amgryptio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch systemau a gwasanaethau, sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad at Ddata Personol yn amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd y mesurau a fabwysiadwyd.

“Cyrff Rheoleiddio”	yn golygu yr adrannau llywodraeth hynny, ac endidau, pwyllgorau, ombwdsmyrn ac eraill a chyrff sydd, p’un ai o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu arall, â hawl i reoleiddio, archwilio, neu ddylanwadu ar y materion yr ymdrinnir â nhw yn y Contract neu unrhyw faterion eraill y Cyngor
“Yswiriant Indemniad Proffesiynol Goferiad”	yn golygu polisi yswiriant indemniad proffesiynol sy’n dod i rym pan mae’r sawl a yswiriwyd yn gorffen masnachu, a bydd unrhyw hawliadau a wnaed oddi tani yn gysylltiedig â gwaith a wnaed cyn dechrau’r polisi;
“Manyleb y Gwasanaeth”	yn golygu’r disgrifiad o’r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth sy’n ofynnol gan y Cyngor;
“Staff”	yn cynnwys pob unigolyn (p’un ai ar sail wirfoddol ai peidio), yn cynnwys Staff Allweddol, a gyflogir neu a ddefnyddir gan y Contractwr i ymgymryd â’i rwymedigaethau o dan y Contract ynghyd ag asiantwyr, cyflenwyr ac Is-Contractwyr a chyflogeion neu asiantwyr Is-Contractwyr a ddefnyddir wrth ymgymryd â’i rwymedigaethau o dan y Contract.
“Is-Contractiwr”	yn golygu contractiwr sy’n ymrwymo i Is-Contract gyda’r Ymgynghorydd i wneud rhywfaint neu’r cyfan o’r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth;
“Diwrnod Gwaith”	yn golygu rhwng dydd Llun a dydd Gwener, ond nid yw’n cynnwys unrhyw ddiwrnodau sy’n wyliau banc neu’n wyliau cyhoeddus;

1. GWASANAETHAU YMGYNGHORIAETH

- 1.1 Mae’r Cyngor yn penodi’r Ymgynghorydd i gyflenwi’r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth i’r Cyngor ac mae’r Ymgynghorydd yn cytuno i benodi’r Staff Allweddol i ddarparu’r Gwasanaethau ar y telerau a’r amodau canlynol.
- 1.2 Dylai’r Ymgynghorydd sicrhau fod y Staff Allweddol a benodwyd i ddarparu’r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn gwneud hynny yn unol ag Arferion Da’r Diwydiant wrth ddefnyddio’u profiad a’u harbenigedd.
- 1.3 Bydd y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn dechrau ar y Dyddiad Cychwyn ac yn dod i ben ar y Dyddiad Terfyn, (oni y’u terfynwyd yn gynt yn unol â’r Contract neu fel arall yn unol â’r gyfraith neu degwch).
- 1.4 Wrth ddarparu’r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, rhaid i’r Ymgynghorydd gydymffurfio ag unrhyw ddyddiadau neu derfynau amser a osodwyd gan y Swyddog Awdurdodedig.
- 1.5 Mae’r Partïon yn cytuno fod amser yn bwysig wrth ymgymryd â’r Gwasanaethau.
- 1.6 Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y Swyddog Awdurdodedig o flaen llaw y gall yr Ymgynghorydd neilltuo’r Contract hwn neu unrhyw ran ohono neu is-contractio darparu’r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth neu unrhyw ran honno, ac

os rhoddir caniatâd i is-gontractio, dylai'r Ymgynghorydd sicrhau fod pob rhwymedigaeth o dan y Contract hwn wedi'u gosod mewn is-gontract gydag unrhyw is-goncontractiwr.

- 1.7 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod fod y Cyngor wedi ymddiried yn enw da, arbenigedd a phrofiad yr Ymgynghorydd a dylai'r Ymgynghorydd sicrhau y bydd y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn cael eu darparu:
- i) mewn modd priodol, medrus a chrefftus;
 - ii) gan nifer digonol o staff cymwys, hyfforddedig a phrofiadol sydd â safon uchel o fedr, gofal a diwydrwydd dyladwy ac yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant;
 - iii) yn unol â'r Contract ac unrhyw ddisgrifiadau a roddwyd gan yr Ymgynghorydd;
 - iv) er boddhad rhesymol y Swyddog Awdurdodedig; ac
 - v) mewn modd fod yr Ymgynghorydd yn cymryd pob rhagofal posibl i ddiogelu eiddo'r Cyngor a ymddiriedwyd i ofal yr Ymgynghorydd.
- 1.8 Dylai'r Ymgynghorydd sicrhau i'r Cyngor, i'r graddau y bydd unrhyw nwyddau, offer neu ddefnyddiau traul yn cael eu darparu fel rhan o'r Gwasanaethau Ymgynghorol, y bydd y rhain yn:
- i) rhydd rhag diffygion mewn dyluniad, defnydd a chrefft; ac
 - ii) wedi'u ffurfio, dylunio, adeiladu, gorffen a'u pecynnu i fod yn ddiogel a heb risg i iechyd.
- 1.9.1 Heb ragfarnu hawliau'r Cyngor i derfynu o dan **Gymal 3** (Terfynu), os nad yw unrhyw un o'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a gyflenwyd yn unol â'r Contract, bydd gan y Cyngor hawl i:
- i) fynnu bod yr Ymgynghorydd yn cydweithredu gydag ymgynghorydd newydd os yw'r Cyngor yn penodi ymgynghorydd newydd cyn gynted â bo hynny'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn 14 diwrnod i gais i wneud hynny; neu
 - ii) ofyn am ad-daliad o gyfran o Bris y Contract a dalwyd am y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ynghyd â thalu am unrhyw wariant ychwanegol uwchben Pris y Contract a wynebwyd yn rhesymol gan y Cyngor yn ei ddisgresiwn absoliwt wrth gael yr ymgynghorydd newydd neu gall y Cyngor yn ei ddisgresiwn absoliwt gael hawl i beidio â thalu Pris y Contract neu gyfran ohono.
- 1.10 Dylai'r Ymgynghorydd gael cyfarfodydd gyda'r Swyddog Awdurdodedig cyn amled ag y mae'r Swyddog Awdurdodedig yn mynnu'n rhesymol yn ystod Cyfnod y Contract fel y gall fod angen i sicrhau fod y Gwasanaethau Ymgynghorol yn cael eu cwblhau'n foddhaol a phrydlon a dylai bob amser weithredu yn ddidwyll,

a dylai adrodd i'r Swyddog Awdurdodedig mewn ysgrifen ar ei gynnydd o ran cyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ddim llai aml nag unwaith y mis.

- 1.11 Dylai'r Ymgynghorydd roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw anawsterau a all godi wrth gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth.
- 1.12 Ni ddylai'r Ymgynghorydd wahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn wrth gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth.
- 1.13 Dylai'r Ymgynghorydd benodi unigolyn i arfer ei hawliau a'i bwerau o dan y Contract hwn. Bydd Rheolwr yr Ymgynghorydd yn uwch aelod o sefydliad yr Ymgynghorydd a dylai allu gwneud penderfyniadau o dan y Contract heb i'r mater orfod cael ei uwchgyfeirio o fewn y busnes.
- 1.14 Dylai'r Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Ymgynghori gynnal cyfarfodydd rheolaidd, o leiaf bob mis am y tri [3] mis cyntaf a bob chwarter wedi hynny (oni chytunwyd yn wahanol) gyda'r diben o adolygu cyflawniad y Gwasanaethau gan yr Ymgynghorydd a sut mae'r Contract yn gweithio. Gall y cyfarfodydd hyn ganfod ffyrdd o wella cyflwyno'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ac adnabod problemau o dan y contract ac unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol o ganlyniad. Ni chaiff unrhyw Barti godi am gostau a ddaw yn sgil mynychu'r cyfarfodydd hyn.
- 1.15 Lle nodwyd i'r Cyngorydd eu bod yn berthnasol i'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, bydd yn rhaid i'r Ymgynghorydd gydymffurfio, a sicrhau fod y Staff yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cyngor yn ychwanegol at unrhyw bolisïau sydd ar gael o dros i dro ar wefan y Cyngor a all fod yn berthnasol i :
 - a) bolisïau cydraddoldeb, gwerth cymdeithasol ac amrywiaeth;
 - b) polisïau iechyd a diogelwch;
 - c) polisïau diogelu;
 - d) polisïau cynaliadwyedd;
 - e) rheolau diogelwch gwybodaeth;
 - f) polisïau chwythu'r chwiban a/neu adrodd yn gyfrinachol;
 - g) holl reolau'r safle sy'n berthnasol i fodloni rhwymedigaethau'r Contractwr wrth ymgymryd â'r Gwasanaethau;
 - h) Caethwasiaeth Fodern;
 - i) rheolau sy'n rhwystro llwgrwobrwyo gan unigolion sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a gweithdrefnau'r Cyngor i rwystro llwgrwobrwyo gan unigolion sy'n gysylltiedig â Chontractwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r Cyngor;
 - j) Cod Cyflogaeth Foesegol.

- 1.16 Ni ddylai'r Ymgynghorydd:

- a) a dylai sicrhau nad yw'r Staff, mewn cysylltiad â'r Contract Ymgynghoriaeth hwn, yn cyflawni Gweithred Waharddedig; a
- b) dylai'r Ymgynghorydd warantu, cynrychioli ac ymgymryd nad yw'n ymwybodol o unrhyw fantais ariannol neu arall a roddir i unrhyw unigolyn sy'n gweithio neu sy'n gyflogedig gan y Cyngor, na bod cytundeb wedi'i wneud i'r perwyl hwnnw, mewn cysylltiad â gweithredu'r Contract hwn, ac eithrio unrhyw drefniant lle datgelwyd manylion llawn amdano mewn ysgrifen i'r Cyngor cyn gweithredu'r Contract Ymgynghoriaeth hwn,

ac os yw'n gwybod am unrhyw doriad o'r Cymal 1.16 hwn, dylai'r Ymgynghorydd hysbysu'r Cyngor yn syth.

- 1.17 Dylai fod gan yr Ymgynghorydd bolisi neu bolisiâu (a fydd yn cael eu datgelu i'r Cyngor ar gais) i atal unrhyw Staff rhag cyflawni Gweithred Waharddedig a dylai eu gorfodi lle'n briodol.
- 1.18 Dylai'r Ymgynghorydd sicrhau nad yw wedi talu comisiwn nac wedi cytuno i dalu comisiwn i unrhyw un o weithwyr neu gynrychiolwyr y Cyngor gan neu ar ran yr Ymgynghorydd.
- 1.19 Os yw'r Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn amau neu'n gwybod y bu torri Cymal 1.15, dylai'r Ymgynghorydd ymateb yn brydlon i ymholiadau'r Cyngor, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad, a chaniatáu i'r Cyngor archwilio llyfrau, cofnodion ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill. Bydd y rhwymedigaeth hon yn parhau am chwe [6] mlynedd wedi i'r Contract hwn ddod i ben neu gael ei derfynu.
- 1.20 Os gofynnir, rhaid i'r Ymgynghorydd roi cymorth rhesymol i'r Cyngor, ar gost resymol y Cyngor, i alluogi'r Cyngor i wneud unrhyw weithgaredd sy'n ofynnol gan unrhyw Gorff Rheoleiddio, llywodraeth neu asiantaeth mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol at ddiben cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwy 2010.

2. PRIS Y CONTRACT

- 2.1 Wrth ystyried cyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, dylai'r Cyngor dalu i'r Ymgynghorydd Pris y Contract a osodwyd yn yr archeb brynu ac ar adegau fel y pennwyd ar gyflawni'r gwaith neu drwy anfoneb gan yr Ymgynghorydd.
- 2.2 Oni ddarparwyd ar eu cyfer yn arbennig gan y Cyngor, dylai Pris y Contract gynnwys yr holl dreuliau a wynebwyd gan yr Ymgynghorydd ac ni fydd gan yr

Ymgynghorydd hawl i adennill unrhyw dreuliau gan y Cyngor.

3. TERFYNU

3.1 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau Force Majeure yn y Contract hwn, gall y Cyngor derfynu'r Contract hwn yn syth drwy rybudd mewn ysgrifen i'r Ymgynghorydd neu ar unrhyw adeg:

- a) os yw'r Ymgynghorydd yn mynd yn fethdalwr, yn ansolfent, yn cyfaddawdu â'i gredydwyd; neu
- b) mae'r Ymgynghorydd wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n berthnasol i'r Contract; neu
- c) mae'r Ymgynghorydd yn peidio neu'n bygwth peidio parhau â'i fusnes; neu
- d) mae risg neu gred wirioneddol y bydd niwed i enw da'r Cyngor yn digwydd o ganlyniad i barhau â'r Contract hwn; neu
- e) mae'r Ymgynghorydd yn torri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn y gellir ei unioni ac nid yw wedi cael ei unioni er boddhad y Cyngor o fewn 14 diwrnod, neu gyfnod arall rhesymol fel y pennir gan y Cyngor wedi cyhoeddi rhybudd ysgrifenedig yn manylu ar y toriad ac yn gofyn iddo gael ei unioni; neu
- f) mae'r Ymgynghorydd wedi torri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn yn bendant neu'n sylweddol ac ni ellir ei unioni; neu
- g) mae'r Ymgynghorydd yn cyflawni mân doriadau cyson o'r Contract hwn (p'un ai eu hunionwyd ai peidio); neu
- h) mae'r Ymgynghorydd yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, arfer neu ymddygiad a fyddai'n golygu troseddu o dan Ddeddf Llwrwobrwy 2010; neu
- i) mae'r Ymgynghorydd yn methu â chydymffurfio â pholisïau gwrth lwgrwobrwy a gwrth lygredd y Cyngor fel ag y'u hysbysir i'r Ymgynghorydd o dro i dro; neu
- j) ystyrir fod yr Ymgynghorydd wedi torri'r Ddeddf Diogelu Data, o safbwynt cyflenwi'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth; neu
- k) mae'r Ymgynghorydd yn methu â chadw ei gofrestrriad gyda Chorff Rheoleiddio neu mae'r Ymgynghorydd wedi cael ei dynnu o aelodaeth y Corff Rheoleiddio, naill gyda neu heb apêl yn erbyn cael ei dynnu oddi yno.

3.2 Mae'r Cyngor wedi dibynnu ar y cynnig a roddwyd gan yr Ymgynghorydd a bydd unrhyw gamliwio sylweddol sydd ynddo yn rhoi hawl i'r Cyngor ddadwneud neu derfynu'r Contract hwn drwy rybudd ysgrifenedig, i ddechrau'n syth.

3.3 HEB EI DDEFNYDDIO

3.4 HEB EI DDEFNYDDIO

- 3.5 Gall y Cyngor derfynu'r Contract hwn os delir fod unrhyw amrywiad yn amrywiad sylweddol o fewn ystyr Rheoliad 72(8) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu os bernir fod y Contract yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth arall o Reoliad 72 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.
- 3.6 Gall y Cyngor derfynu'r Contract hwn ar unrhyw adeg heb rwymedigaeth i'r Ymgynghorydd drwy roi dim llai nag un [1] mis o rybudd ysgrifenedig i'r Ymgynghorydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn talu i'r Ymgynghorydd yr holl arian sy'n briodol ddyledus i'r Ymgynghorydd am y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a wnaed hyd at y dyddiad y daw'r terfyniad i rym o dan delerau'r Contract hwn.
- 3.7 Os yw'r Cyngor yn dewis derfynu'r Contract hwn ar unrhyw sail a osodwyd yng **Nghymal 3** gall wneud hynny'n gyfan gwbl neu'n rhannol a gall roi cyfnod o rybudd yn hytrach na therfynu'r Contract yn syth.

4. CANLYNIADAU TERFYNU A DOD I BEN

- 4.1 Lle mae'r Contract hwn yn cael ei derfynu drwy ddiffyg gan yr Ymgynghorydd o dan is-gymalau 3.1 i 3.5, ni fydd unrhyw daliadau pellach sy'n ddyledus yn cael eu talu gan y Cyngor nes bod y Cyngor wedi sefydlu'r costau terfynol wrth wneud unrhyw drefniadau eraill, fel y darperir yng **Nghymal 4**.
- 4.2 Os yw'r Contract hwn yn cael ei derfynu'n llwyr neu'n rhannol, bydd y Cyngor:
- a) yn rhwym i dalu'r Ymgynghorydd yr elfennau hynny yn unig o'r Contract, os o gwbl, a gronwyd yn briodol yn unol â'r Contract neu'r rhan o'r Contract yr effeithiwyd arno, hyd at adeg y terfyniad; a/neu
 - b) bydd gan y Cyngor hawl i adennill gan y Contractwr (neu ei gynrychiolydd) yr elfennau hynny o bris y Contract, os o gwbl, y talwyd amdanynt ymlaen llaw am y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth nad ydynt wedi'u cyflenwi ar ddyddiad y terfyniad a/neu;
 - c) gall y Cyngor ddidynnu o unrhyw swm neu symiau a fyddai wedi bod yn ddyledus gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract hwn neu unrhyw Gontract arall i adennill fel dyled unrhyw swm mewn cysylltiad ag unrhyw golled neu ddifrod i'r Cyngor a ysgwyddwyd yn briodol, sy'n gyfreithlon orfodadwy ac wedi'i lliniaru'n rhesymol o ganlyniad i derfynu'r Contract hwn. Dylai colled neu ddifrod o'r fath gynnwys y gost resymol i'r Contract o ran yr amser a dreuliwyd gan ei swyddogion yn derfynu'r Contract ac yn gwneud trefniadau gwahanol i gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth neu unrhyw rannau ohonynt; a/neu
 - d) pe digwydd fod unrhyw swm o arian sy'n ddyledus gan yr Ymgynghorydd i'r Cyngor yn fwy nag unrhyw swm sy'n ddyledus gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract hwn, yna bydd gan y Cyngor, yn ôl ei

ddoethineb, hawl i ddiynnu'r symiau o unrhyw Contract y gall y Contractwr ei wneud gyda'r Cyngor yn y dyfodol neu adennill y ddyled drwy'r llys sifil.

- 4.3 Wrth derfynu'r Contract hwn am unrhyw reswm, ac eithrio fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Contract hwn, ac i unrhyw hawliau a rhwymedigaethau a gronwyd cyn terfynu, ni fydd gan y naill Barti na'r llall unrhyw rwymedigaeth bellach i'w gilydd o dan y Contract.
- 4.4 Os yw'r Cyngor yn derfynu'r Contract hwn (neu'n derfynu'r ddarpariaeth o unrhyw ran o'r Contract hwn), bydd gan y Cyngor hawl i chwilio am ymgynghorydd newydd i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth neu unrhyw ran ohonynt.
- 4.5 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i derfynu'r Contract, dylai'r Ymgynghorydd barhau i gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn unol â'r Contract hwn a rhaid iddo sicrhau nad oes dirywiad yn safon y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth hyd nes y dyddiad terfynu.
- 4.6 Wrth i'r Contract hwn gael ei derfynu neu ddod i ben, dylai'r Ymgynghorydd (neu ei gynrychiolydd os yn briodol):
- a) o fewn tri deg [30] diwrnod o ddyddiad y terfyniad neu'r diwedd, ad-dalu i'r Cyngor unrhyw swm y gall yr Ymgynghorydd fod wedi'i thalu o flaen llaw am y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth na chafodd eu darparu;
 - b) o fewn pum [5] diwrnod o ddyddiad terfynu neu ddiwedd y Contract hwn, trosglwyddo i'r Cyngor (neu unrhyw ymgynghorydd newydd, yn ôl y galw) unrhyw ffeiliau achos agored;
 - c) o fewn tri deg [30] diwrnod o ddyddiad terfynu neu ddiwedd y Contract hwn, dychwelyd i'r Cyngor unrhyw ddata (yn cynnwys Data Personol) a Gwybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r Cyngor ac ym meddiant, grym neu reolaeth yr Ymgynghorydd ac wedi hynny dylai'r Ymgynghorydd drwy Ddileu Data Ardystiedig, ddileu yn anadferadwy wybodaeth o'r fath a storiwyd ar unrhyw fformat; ac
 - d) (os yn berthnasol) o fewn tri deg [30] diwrnod o ddyddiad terfynu neu ddiwedd y Contract hwn, drefnu i drosglwyddo i'r Cyngor (neu unrhyw ymgynghorydd newydd, fel y bo'r galw) weddill unrhyw drwydded a oedd ei hangen i barhau i gyflenwi'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth.
- 4.7 Dylai'r Ymgynghorydd wneud pob ymdrech i hwyluso trosglwyddiad llyfn ei gyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth i'r Cyngor (neu unrhyw ymgynghorydd newydd, fel y bo'r galw) ac ni ddylai'r Ymgynghorydd weithredu ar unrhyw amser yn ystod Cyfnod y Contract neu wedi hynny mewn modd a fwriadwyd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i ragfarnu neu rwystro neu wneud unrhyw drosglwyddiad o'r fath yn fwy anodd.
- 4.8 Ni ddylai'r Ymgynghorydd godi ar y Cyngor (neu'r ymgynghorydd newydd, fel y bo'r galw) am unrhyw wariant a ysgwyddwyd ym mha fodd bynnag wrth ddilyn y trefniadau fel y'u gosodwyd yng Nghymal 4.6 neu Gymal 4.7.

5. GWYBODAETH GYFRINACHOL

- 5.1 Rhaid i'r Ymgynghorydd gytuno bob amser i drin pob Gwybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol i'r Cyngor. Ni chaiff yr Ymgynghorydd ar unrhyw adeg am unrhyw reswm ddatgelu neu ganiatáu i gael ei ddatgelu i unrhyw unigolyn unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol ac ni chaiff yr Ymgynghorydd fel arall ddefnyddio neu ganiatáu gwneud defnydd o unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol gan unrhyw berson.
- 5.2 Rhaid i'r Ymgynghorydd arwyddo cytundeb dim datgelu os yw'r Cyngor yn mynnu hynny.

6. DIOGELU DATA

- 6.1 Dylai'r Partïon gydymffurfio bob amser a Deddfwriaeth Diogelu Data.
- 6.2 Gall methiant gan yr Ymgynghorydd i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Cymal 6 hwn gael ei ystyried yn doriad sylweddol o'r Contract hwn.

7. RHYDDID GWYBODAETH

- 7.1 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod fod y Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("FOIA") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("EIR") a dylai gynorthwyo a chydweithredu â'r Cyngor (ar gost yr Ymgynghorydd) i alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r datgeliadau gwybodaeth hyn.
- 7.2 Dylai'r Ymgynghorydd:
- i) drosglwyddo unrhyw gais am Wybodaeth i'r Cyngor cyn gynted â bo hynny'n ymarferol wedi'i dderbyn a beth bynnag o fewn 5 diwrnod gwaith ;
 - ii) darparu copi i'r Cyngor o'r holl wybodaeth yn y ffurf y gofynnwyd amdani gan y Cyngor o fewn 5 diwrnod gwaith (neu pa gyfnod arall a bennir gan y Cyngor) i gais am y wybodaeth honno; a
 - iii) rhoi cymorth i'r Cyngor fel y mae'n gofyn yn rhesymol i alluogi'r Cyngor i ymateb i gais am Wybodaeth o fewn yr amser cydymffurfio a osodwyd yn adran 10 o'r FOIA neu reoliad 5 o'r EIR.
- 7.3 Bydd y Cyngor yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt a yw Gwybodaeth o'r fath:
- i) yn cael ei heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r FOIA neu'r EIR; neu
 - ii) y dylai gael ei datgelu mewn ymateb i gais am Wybodaeth.
- 7.4 Ni ddylai'r Cyngor ymateb yn uniongyrchol i gais am Wybodaeth oni bod y Cyngor wedi awdurdodi hynny'n bendant.
- 7.5 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod y gall y Cyngor fod yn rhwym o dan y FOIA neu'r EIR i ddatgelu'r Wybodaeth:
- i) heb ymynghori â'r Ymgynghorydd, neu

- ii) yn dilyn trafod gyda'r Ymgynghorydd ac wedi ystyried barn yr Ymgynghorydd.

7.6 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod fod unrhyw restrau neu atodlenni a ddarperir gan yr Ymgynghorydd sy'n amlinellu gwybodaeth sy'n gyfrinachol yn nhyb yr Ymgynghorydd, o werth dangosol yn unig, ac y gall y Cyngor serch hynny fod yn rhwym i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn unol â'r **Cymal** 7 hwn.

8. EIDDO DEALLUSOL

8.1 Rhaid i'r Ymgynghorydd sicrhau na fydd, wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, yn torri hawlfraint, hawl dylunio, patent, neu unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol eraill unrhyw drydydd parti a'i fod yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw hawliad cyfreithlon orfodadwy a weir yn ei erbyn sy'n deillio o dorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sy'n eiddo i unrhyw drydydd parti.

8.2 Bydd hawlfraint ac unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol eraill mewn unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchir wrth neu o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn eiddo i'r Cyngor ac mae'r Cyngor yn rhoi i'r Ymgynghorydd drwydded heb fod yn gyfyngol am byth i gopïo a defnyddio deunyddiau o'r fath ar gyfer cyfeirio a chofnodion yn unig.

8.3 Dylai'r Ymgynghorydd indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw hawliad cyfreithlon orfodadwy a ddygir yn erbyn y Cyngor sy'n honni fod torri wedi digwydd ar yr Hawliau Eiddo Deallusol sy'n eiddo i Drydydd Parti, oherwydd iddo gael ei ddefnyddio, ei weithredu neu ei gymhwyso gan y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, a dylai'r Ymgynghorydd dalu'r holl gostau a'r iawndal a ddyfernir neu y cytunwyd arno i setlo unrhyw hawliad o'r fath yn erbyn y Cyngor cyn belled â bod staff y Cyngor:

- yn rhoi rhybudd ysgrifenedig prydlon o'r hawliad i'r Ymgynghorydd; ac
- yn trafod â'r Ymgynghorydd i gael cymorth gan yr Ymgynghorydd wrth amddiffyn hawliad o'r fath.

8.4 Os, ym marn resymol yr Ymgynghorydd, (wedi ymgynghori â'r Swyddog Awdurdodedig), yw'r defnydd o'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn mynd neu mewn perygl o fynd yn destun honiad o dorri Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti, yna dylai'r Ymgynghorydd naill ai:

- i) gael yr hawl i barhau i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol yr honnir sy'n cael eu torri yn y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth; neu
- ii) newid neu addasu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth fel nad ydynt yn torri hawliau cyn belled nad yw'r newid neu'r addasu yn arwain at y Gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn methu â chydymffurfio â Manyleb y Gwasanaeth, oni chytunwyd fel arall.

8.5 Os nad yw'r camau unioni a osodwyd yn is-gymal 8.4, (ym marn resymol yr Ymgynghorydd) ar gael, yna gall y Cyngor, heb ragfarn i unrhyw un o hawliau

neu rwymedïau eraill y Cyngor o dan y Contract hwn, derfynu'r Contract yn syth yn llwyr neu'n rhannol.

9. STATWS AC ATEBOLRWYDD TRETH

- 9.1 Mae'r Partïon yn datgan nad yw'r Ymgynghorydd yn cael ei gyflogi gan y Cyngor ac ni fydd ganddo hawl i unrhyw bensiwn, bonws neu fudd arall (heblaw Pris y Cyngor sy'n daladwy o dan y Contract hwn) gan y Cyngor.
- 9.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn gyfrifol am holl rwymedigaethau Treth Incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol neu gyfraniadau tebyg o ran taliadau a wneir gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract hwn.
- 9.3 Mae'n rhaid i'r Ymgynghorydd indemnio'r Cyngor am unrhyw hawliadau cyfreithlon orfodadwy a all gael eu gwneud gan yr awdurdodau perthnasol yn erbyn y Cyngor o safbwynt Treth Incwm neu Yswiriant Gwladol neu gyfraniadau tebyg sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth.

10. CYFYNGIAD YR ATEBOLRWYDD

- 10.1 Yn ddarostyngedig i Gymal 10.2, bydd yr Ymgynghorydd yn atebol am ac yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw gostau, rhwymedigaeth, colled, hawliad neu achosion o ba fath bynnag sy'n codi o safbwynt unrhyw weithred esgeulus, gwall, torri contract neu hepgoriad sut bynnag y maent yn deillio o ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a bydd cyfanswm atebolrwydd yr Ymgynghorydd i'r Cyngor yn deillio o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract hwn yn ddiderfyn.
- 10.2 Ni fydd y naill Barti yn atebol i'r llall am unrhyw golled anuniongyrchol neu ganlyniadol sy'n codi, p'un ai mewn contract, neu mewn esgeulustod, neu mewn camwedd arall sy'n gysylltiedig â chyflawni neu ddiffyg cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn, heblaw i'r graddau na ellir eithrio neu gyfyngu ar atebolrwydd o'r fath yn ôl y gyfraith.
- 10.3 Ni fydd y **Cymal** 10 hwn yn eithrio nac yn cyfyngu ar atebolrwydd y naill Barti na'r llall am dwyll neu gamliwiad.

11. INDEMNIAD AC YSWIRIANT

- 11.1 Dylai'r Ymgynghorydd gymryd a chynnal dros Gyfnod y Contract yr yswiriannau canlynol:
- i) yswiriant atebolrwydd cyflogwr am y swm fesul digwyddiad sy'n ofynnol gan y Cyngor a dylai'r Ymgynghorydd gadw yswiriant atebolrwydd y cyflogwr tan y Dyddiad y Daw i Ben;
 - ii) yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o safbwynt atebolrwydd am farwolaeth neu anaf corfforol i unrhyw berson, neu golled neu ddifrod i eiddo neu unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o gyflawniad neu geisio neu honni cyflawni neu beidio â chyflawni'r Contract am y swm fesul digwyddiad sy'n ofynnol gan y Cyngor; a dylai'r Ymgynghorydd gadw'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus tan y Dyddiad y Daw i Ben;

- i) yswiriant indemniad proffesiynol mewn swm sy'n normal ac arferol i ymgynghorydd yn y busnes y mae'r Ymgynghorydd ynddo ond sydd beth bynnag yn swm sy'n ofynnol gan y Cyngor.
- 11.2 Dylai'r Ymgynghorydd gadw'r yswiriant indemniad proffesiynol am 6 mlynedd wedi iddo ddod i ben (os yw'r Contract hwn wedi'i lofnodi) neu 12 mlynedd wedi iddo ddod i ben (os yw'r Contract hwn wedi'i selio fel gweithred) ac os yw'r Ymgynghorydd yn stopio gweithredu yn ystod y cyfnod atebolrwydd estynedig hwn dylai'r Ymgynghorydd sicrhau fod amddiffyniad yn erbyn unrhyw hawliad a all gael ei wneud gan y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy Yswiriant Indemniad Proffesiynol Goferiad a bydd yn rhwym os gwneir cais am hynny gan y Cyngor i brofi'n flynyddol i'r Cyngor fod y ddarpariaeth yswiriant yn dal yn ei lle.
- 11.3 Dylai'r Ymgynghorydd ddangos tystiolaeth o'r yswiriannau y cyfeiriwyd atynt yng **Nghymal** 11.1 cyn dechrau cyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ac ar unrhyw adeg arall ar gais rhesymol y Swyddog Awdurdodedig.
- 11.4 Os ceir bod yr Ymgynghorydd yn torri'r **Cymal** 11 hwn, gall y Cyngor benderfynu talu unrhyw breimiau sydd eu hangen i gadw'r yswiriannau gofynnol mewn grym a gall adennill y symiau hyn gan yr Ymgynghorydd drwy ddiynnu o'r symiau sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract neu drwy adennill hyn fel dyled sy'n ddyledus i'r Cyngor gan yr Ymgynghorydd.

12. DATRYS ANGHYDFOD

- 12.1 Os os unrhyw Anghydfod yn deillio o'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef, dylai'r Partïon gydymffurfio â'r weithdrefn datrys anghydfod a osodir yn y **Cymal** 12 hwn.
- 12.2 Nid oes dim yn y **Cymal** 12 hwn sy'n atal hawl Parti i gychwyn achos a fyddai fel arall yn cael ei niweidio gan oedi.
- 12.3 Dylai'r Cyngor roi cymorth gweinyddol i weithredu'r gweithdrefnau, yn cynnwys galw cyfarfodydd, cofnodi a lledaenu penderfyniadau fel y bo'n briodol, ayb.
- 12.4 I ddechrau dylai pob problem neu anghydfod sy'n codi rhwng y Partïon gael eu trafod cyn gynted â phosibl rhwng yr Ymgynghorydd a'r Swyddog Awdurdodedig gyda golwg ar ddatrysiad sydyn heb yr angen am weithredu ffurfiol pellach o dan y weithdrefn hon.
- 12.5 Os yw'r broses anffurfiol hon yn methu â chynhyrchu datrysiad yna gall y naill Barti neu'r llall gyfeirio at y weithdrefn gan ddechrau yng Ngham 1.

CAM 1

- 12.6 Dylai'r Parti amlinellu'r anghydfod mewn ysgrifen a'i anfon i'r Parti arall.
- 12.7 O fewn 7 diwrnod o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig am anghydfod, dylai'r Swyddog Awdurdodedig drefnu cyfarfod o'r ddau Barti i'w gynnal mewn lleoliad ac ar ddyddiad sy'n gyfleus i'r ddwy ochr (ond na fydd beth bynnag yn fwy na 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig am anghydfod).

- 12.8 Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan y Swyddog Awdurdodedig (neu unigolyn arall y cytunir arno gan y Partïon) a'i fynychu gan unrhyw bobl berthnasol eraill sy'n briodol ym marn y naill Barti neu'r llall.
- 12.9 Pwrpas y cyfarfod fydd trafod a chofnodi'r anghydfod a cheisio dod i ddatrysiad/cynllun gweithredu y cytunir arno.
- 12.10 Os cytunir ar gynllun gweithredu i ddatrys yr anghydfod bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gyfrifol am anfon cofnodion y cyfarfod i'r Ymgynghorydd o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod a monitro gweithredu'r cynllun.
- 12.11 Os yw'r cyfarfod o dan y Cam 1 hwn yn methu â datrys yr anghydfod, neu os yw'r cynllun gweithredu'n methu ag unioni'r anghydfod o fewn amser rhesymol, gall y naill Barti neu'r llall fynd ymlaen i Gam 2.

CAM 2 - CYFRYNGU

- 12.12 Bydd costau'r cyfryngu yn cael eu hysgwyddo'n gyfartal gan y Partïon.
- 12.13 Dylai'r Partïon gytuno y bydd penderfyniad y cyfryngu hwn yn derfynol.
- 12.14 Mae'r drefn ar gyfer cyfryngu a'r darpariaethau canlyniadol sy'n gysylltiedig â chyfryngu fel a ganlyn:
- i) dylai cynghorydd neu gyfryngwr niwtral (y "**Cyfryngwr**") gael ei ddewis drwy gytundeb rhwng y Partïon neu os nad ydynt yn gallu cytuno ar Gyfryngwr yna gallant wneud cais i'r Ganolfan Datrys Anghydfod yn Effeithiol ("**CEDR**") i benodi Cyfryngwr;
 - ii) dylai'r Partïon, o fewn 10 Diwrnod Gwaith i benodi'r Cyfryngwr, gytuno ar raglen i gyfenwid yr holl wybodaeth berthnasol a'r strwythur i'w fabwysiadau er mwyn cynnal trafodaethau. Os ysytrir fod hynny'n berthnasol, gall y Partïon ar unrhyw adeg ofyn am gymorth gan CEDR i roi canllawiau ar drefn addas;
 - iii) oni chytunwyd fel arall, dylai'r holl drafodaethau sy'n gysylltiedig â'r Anghydfod ac unrhyw setliad neu gytundeb sy'n ymwneud ag ef gael eu cynnal yn gyfrinachol a heb ragfarnu hawliau'r Partïon yn y dyfodol;
 - iv) os yw'r Partïon yn dod i gytundeb ar ddatrys yr Anghydfod, dylid crynhoi'r cytundeb mewn ysgrifen a bydd yn rhwymol ar y Partïon wedi iddo gael ei arwyddo gan eu cynrychiolwyr awdurdodedig;
 - iv) os methir â chael cytundeb, gall y naill Barti neu'r llall wahodd y Cyfryngwr i roi barn gytbwys ond heb fod yn rhwymol mewn ysgrifen. Gellir rhoi barn o'r fath ar sail ddiragfarn ac ni chaiff ei defnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos sy'n gysylltiedig â'r Contract heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y ddau Barti; ac

- vi) os yw'r Partïon yn methu â dod i gytundeb yng Ngham 2 o fewn 40 Diwrnod Gwaith o benodi'r Cyfryngwr neu gyfnod arall y cytunir arno gan y Partïon, gellir cyfeirio'r Anghydfod at lysoedd Cymru a Lloegr.

13. CYFLE CYFARTAL

Wrth gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, dylai'r Ymgynghorydd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1988 fel pe bai'r Ymgynghorydd yn gorff cyhoeddus, a dylai gydymffurfio â phob deddf sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal, gan gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

14. GWERTH CYMDEITHASOL

Bydd gofyn i'r Ymgynghorydd gyflawni elfennau gwerth cymdeithasol yn unol â Deddf Llesiant Cymru 2015 fel y gosodwyd yn ei gynnig neu dylai gytuno â'r Swyddog Awdurdodedig ar ymdrechion rhesymol i sicrhau ei fod, wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir y Fflint.

15. CADW COFNODION A MONITRO

- 15.1 Er mwyn helpu'r Cyngor yn ei ofynion cadw cofnodion a monitro yn cynnwys gofynion archwilio a rhai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, dylai'r Ymgynghorydd gadw a chynnal am 6 mlynedd (neu gyfnod hirach fel sy'n ofynnol gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol) ar ôl i'r Contract gael ei gwblhau, cofnodion llawn a chywir am y Contract a'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a ddarparwyd oddi tano, yr holl wariant a ad-dalwyd gan y Cyngor, a'r holl daliadau a wnaed gan y Cyngor. Dylai'r Ymgynghorydd, ar gais y Cyngor, ganiatáu i'r Cyngor neu gynrychiolwyr y Cyngor fynediad at (a chopïau o) unrhyw gofnodion y gall y Cyngor ofyn amdanynt mewn cysylltiad â'r Contract.
- 15.2 Rhaid i'r Ymgynghorydd, ar ei gost ei hun, roi unrhyw wybodaeth a all fod ei hangen gan y Cyngor i gydymffurfio â gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer monitro'r Contract.

16. DIGWYDDIADAU FORCE MAJEURE

- 16.1 Dylai fod gan yr Ymgynghorydd gynlluniau wrth gefn yn eu lle i sicrhau y gellir cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Contract hwn os oes modd o gwbl hyd yn oed yn ystod Digwyddiad Force Majeure.
- 16.2 Dylai'r Ymgynghorydd roi copïau o'i gynlluniau wrth gefn i'r Swyddog Awdurdodedig os gofynnir am hynny.
- 16.3 Ni fydd y naill Barti na'r llall yn atebol am fethu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract os yw'r methiant hwn yn ganlyniad Digwyddiad Force Majeure a'u bod wedi hysbysu'r Parti arall mewn ysgrifen o fewn 2 ddiwrnod o'r Force Majeure yn digwydd.
- 16.4 Ni fydd gweithredu diwydiannol, afiechyd, neu brinder ymhlith Cyflogeion y Contractwr, ei asiantwyr neu is-contractwyr, methu neu oedi gan unrhyw un o Gyflogeion y Contractwr i gyflenwi nwyddau, cydrannau, gwasanaethau neu

ddeunyddiau ac unrhyw dorri unrhyw warantau a roddwyd gan yr Ymgynghorydd yn cael eu hystyried yn ddigwyddiad Force Majeure.

- 16.5 Os yw Digwyddiad Force Majeure yn atal y naill Barti neu'r llall rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract mewn unrhyw ffordd o bwys am gyfnod parhaus o 60 diwrnod, yna heb niweidio unrhyw hawliau neu rwymedïau a gronnwyd o dan y Contract, gall y naill Barti neu'r llall derfynu'r Contract drwy rybudd mewn ysgrifen i'r Parti arall i ddechrau'n syth.
- 16.7 Os yw'r Contract yn cael ei derfynu yn unol â'r **Cymal** 16 hwn, ni fydd gan y naill Barti unrhyw atebolrwydd i'r llall ac eithrio y bydd unrhyw hawliau a rhwymedigaethau a gronnwyd cyn y terfynu yn dal i fodoli.
- 16.8 Os yw'r Cyngor neu leoliad y gwaith yn cael eu heffeithio gan Ddigwyddiad Force Majeure, bydd gan y Cyngor hawl i ohirio'n llwyr neu'n rhannol y dyddiad neu'r dyddiadau i gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth nes bod y Digwyddiad Force Majeure yn peidio ac ni ddylai unrhyw ohirio o'r fath arwain at hawliad gan yr Ymgynghorydd yn erbyn y Cyngor na rhoi hawl iddo derfynu'r Contract.

17. NEWID YN Y GYFRAITH

- 17.1 Os digwydd Newid yn y Gyfraith sy'n cael effaith uniongyrchol ar Bris y Contract, dylai'r Partïon gwrdd o fewn 14 diwrnod i'r Ymgynghorydd hysbysu'r Cyngor am y Newid yn y Gyfraith i ymgynghori a cheisio cytuno ar effaith y Newid yn y Gyfraith ac unrhyw newid ym Mhris y Contract o ganlyniad.
- 17.2 Os nad yw'r Partïon, o fewn 14 diwrnod o'r cyfarfod y cyfeiriwyd ato yng Nghymal 17.1 wedi cytuno ar ddigwyddiad neu effaith y Newid yn y Gyfraith, gall yr Ymgynghorydd gyfeirio'r mater at ddatrys anghydfod yn unol â **Chymal** 12.
- 17.3 Dylai unrhyw symiau ychwanegol sy'n daladwy o ganlyniad i weithredu Cymal 17.1 gael eu cynnwys ym Mhris y Contract. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fwriadwyd i ddim byd yn y Contract hwn ganiatáu i'r Ymgynghorydd adennill ddwywaith unrhyw gynnydd mewn costau.

18. STAFF ALLWEDDOL

- 18.1 Dylid darparu Staff Allweddol i gyflawni'r Contract a dylai'r Ymgynghorydd benodi Staff Allweddol a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth.
- 18.2 Ni ddylai Staff Allweddol gael eu rhyddhau gan yr Ymgynghorydd o gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghorol heb gytundeb y Swyddog Awdurdodedig (ac eithrio oherwydd salwch tymor hir, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, terfynu cyflogaeth, neu unrhyw amgylchiadau lleihaol eraill).
- 18.3 Bydd unrhyw newidiadau i Staff Allweddol yn gorfod cael eu cytuno gan y Swyddog Awdurdodedig (yn gweithredu'n rhesymol) a dylai newidiadau o'r fath gael eu henwi gan yr Ymgynghorydd. Bydd gan y newidiadau statws cyfartal neu brofiad cyfatebol a bydd ganddynt sgiliau sy'n cyfateb â'r Staff Allweddol y maent yn dod yn eu lle.

19. IS GONTRACTAU

- 19.1 Ni chaiff yr Ymgynghorydd aseinio, gwneud contract newydd, is-gontractio neu waredu'r Contract mewn unrhyw ffordd arall heb Gymeradwyaeth.
- 19.2 Lle mae'r Cyngor wedi rhoi Cymeradwyaeth i osod Is-Gontractau, dylid rhoi copïau o bob Is-Contract (a/neu unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Cyngor yn gofyn amdani mewn perthynas â'r Is-Contractiwr) i'r Cyngor cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yn dilyn cais gan y Cyngor i wneud hyn.
- 19.3 Ni fydd is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn rhyddhau'r Ymgynghorydd o unrhyw un o'i rwymedigaethau neu ei ddyletswyddau o dan y Contract.
- 19.4 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am weithredoedd ac anweithredoedd ei Is-Contractwyr fel pe baent eu rai ei hun.
- 19.5 Bydd gan y Cyngor yr hawl absoliwt i fynnu bod yr Ymgynghorydd yn newid Is-Contractiwr am ba reswm bynnag p'un ai bod seiliau gorfodol neu anorfodol dros wneud hynny.
- 19.6 Gall y Cyngor aseinio, gwneud contract newydd, neu fel arall waredu ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract neu unrhyw ran ohono i:
- a) unrhyw gorff arall a sefydlwyd gan y Goron neu o dan statud i gyflawni'n sylweddol unrhyw rai o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Cyngor;
 - b) unrhyw gorff sector preifat sy'n cyflawni'n sylweddol swyddogaethau'r Cyngor; neu
 - c) unrhyw gorff arall a sefydlwyd gan y Cyngor i gyflawni'n sylweddol unrhyw rai o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Cyngor; neu
 - (d) fel sy'n ofynnol gan y Gyfraith.
- cyn belled nad yw unrhyw aseinio, rhoi contract newydd neu waredu yn cynyddu baich rhwymedigaethau'r Ymgynghorydd o dan y Contract.
- 19.7 O safbwynt Isgontractwyr, bydd y canlynol yn weithredol:
- 19.7.1 cyn y Dyddiad Cychwyn, dylai'r Ymgynghorydd hysbysu'r Cyngor am enw, manylion cyswllt, cynrychiolwyr cyfreithiol ac os yn berthnasol, Dogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd, pob Is-Contractwr;
- 19.7.2 unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a hysbyswyd i'r Cyngor yn unol â Chymal 19.7.1 yn cynnwys unrhyw newid i'r Is-Contractwr a gyflogwyd gan y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth; a
- 19.7.3 bydd gan y Cyngor yr hawl absoliwt i fynnu bod yr Ymgynghorydd yn newid Is-Contractwr am unrhyw reswm bynnag p'un ai bod seiliau gorfodol neu seiliau anorfodol dros wneud hynny yn unol â Rheoliad 57 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'i diwygiwyd).

20 AMRYWIOL

- 20.1 Dylai unrhyw gyfeiriad at unrhyw Ddeddf Seneddol neu at unrhyw offeryn deddfwriaethol gynnwys cyfeiriad at unrhyw gydgrynhoi, diwygiad neu ailddeddfiad ohoni.
- 20.2 Lle mae'r cyd-destun yn caniatáu neu'n mynnu hynny, mae unrhyw gyfeiriad at y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac fel arall, ac unrhyw gyfeiriad at yr unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall.
- 20.3 Mae'r penawdau er hwylustod cyfeirio yn unig ac ni ddylent effeithio ar ddehongliad y Contract hwn.
- 20.4 Ni ddylai unrhyw ymwrthodiad neu oedi gan y naill Barti mewn cysylltiad ag unrhyw doriad neu ddiffyg mewn cyflawni unrhyw un o'r darpariaethau yn y Contract hwn gan y Parti arall gael eu dehongli fel ildio hawl o'r toriad neu'r diffyg hwnnw neu unrhyw rai sy'n dilyn. Bydd unrhyw ildio hawl gan y naill Barti ar unrhyw doriad neu ddiffyg wrth gyflawni rhwymedigaethau'r Parti arall o dan y Contract hwn yn weithredol i'r toriad neu'r diffyg hwnnw yn unig ac ni fydd yn golygu ildio hawl ar unrhyw hawliau sydd gan y Parti sy'n ildio hawl mewn perthynas ag unrhyw doriad neu ddiffyg canlynol. Dim ond os caiff ei gyhoeddi mewn ysgrifen a'i lofnodi gan y Swyddog Awdurdodedig y bydd unrhyw ildio hawl gan y Cyngor yn effeithiol.
- 20.5 Mae'r Contract hwn yn ffurfio cytundeb cyfan y Partion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ac mae'n disodli unrhyw gytundeb dealltwriaeth neu gynrychiolaeth arall p'un ai'n ysgrifenedig neu ar lafar rhwng y Partion ynglŷn ag ef. Dim ond os yw'n cael ei wneud gan offeryn mewn ysgrifen a lofnodwyd gan gynrychiolwyr awdurdodedig pob Parti y bydd newidiad i'r Contract hwn yn ddilys.
- 20.6 Dylai unrhyw rybudd neu alwad swyddogol sy'n ofynnol gan y Contract i gael ei gyflwyno gan unrhyw Barti fod mewn ysgrifen a bernir ei fod wedi'i gyflwyno os yw wedi'i gyfeirio at y cyfeiriad diweddaraf a hysbyswyd i'r Parti arall, ac:
- i) os yw wedi'i ddanfon yn bersonol, pan gafodd ei adael yng nghyfeiriad y Parti arall; neu
 - ii) os cafodd ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf wedi'i ragdalw neu drwy ddanfoniad cofnodedig, am 9.00am ar yr ail Ddiwrnod Gwaith ar ôl postio; neu
 - iii) os cafodd ei ddanfon gan gludwr masnachol, ar y dyddiad ac ar yr amser y lofnodwyd derbynneb ddanfon y cludwr.
- 20.7 I osgoi amheuaeth ni fydd unrhyw rybudd neu alwad swyddogol gan y Cyngor yn cael ei dderbyn drwy ffacs neu e-bost.
- 20.8 Mae'r Contract hwn yn orfodadwy gan y Partion gwreiddiol iddo yn unig, eu hollynwyr mewn teitl a'u haseiniaid a ganiatawyd. Eithrir unrhyw hawliau unrhyw unigolyn i orfodi telerau'r Contract hwn yn unol â Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

- 20.9 Dylai'r Ymgynghorydd sicrhau, tra'i fod ar dir y Cyngor, ei fod yn cydymffurfio â gofynion deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys rheoliadau a chodau ymarfer a gyhoeddwyd oddi tani yn cynnwys unrhyw rai a allai fod wedi'u cyhoeddi gan y Cyngor.
- 20.10 Os oes unrhyw ddarpariaeth o'r Contract hwn wedi'i gwahardd gan y gyfraith neu wedi'i chael yn anghyfreithlon gan lys, yn ddi-rym neu'n anorfodadwy, bydd y ddarpariaeth, i'r graddau y bo angen, yn cael ei thorri o'r Contract hwn a'i gwneud yn aneffeithiol cyn belled â phosibl heb newid darpariaethau eraill y Contract, ac ni ddylai mewn unrhyw ffordd effeithio ar unrhyw amgylchiadau eraill neu ddilysrwydd neu orfodaeth y Contract hwn.
- 20.11 Dylai'r Partïon (heb gost i'r Parti arall) gydweithredu'n llawn â'i gilydd (yn cynnwys ond heb fod wedi'i gyfyngu i ddarparu dogfennau, datganiadau ac ymddangos fel tystion) mewn cysylltiad ag unrhyw achos cyfreithiol, ymholiadau'r ombwdsmon, cyfryngu neu achos llys y gall y Parti fod â rhan ynddo, neu unrhyw wrandawriad disgyblu mewnol yn y Cyngor, sy'n deillio o gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a lle bernir bod angen, bydd yn rhaid i'r Partïon ofyn i'w staff roi tystiolaeth mewn ymholiadau, cyfryngu, achosion neu wrandawiadau o'r fath.
- 20.12 Bydd y Contract hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef a'i bwnc yn cael ei lywodraethu gan a'i ddehongli yn unol â Chyfreithiau Cymru a Lloegr. Rhaid i'r partïon gytuno yn ddi-droi'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth unigryw i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi o'r Contract hwn neu ei bwnc neu mewn cysylltiad â nhw.
- 20.13 Bydd y Cymalau canlynol yn goroesi dod i ben neu derfynu'r Contract hwn:
- a) Cymal 4 (Canlyniadau Terfynu a Dod i Ben);
 - b) Cymal 5 (Gwybodaeth Gyfrinachol);
 - c) Cymal 6 Diogelu Data);
 - d) Cymal 7 (Rhyddid Gwybodaeth);
 - e) Cymal 8 (Eiddo Deallusol);
 - f) Cymal 11 (Indemniadau ac Yswiriant);
 - g) Cymal 12 (Gweithdrefn Datrys Anghydfod); a
 - h) Cymal 19.13 (Y Gyfraith ac Awdurdodaeth).
- 20.14 Rhaid i bob un o'r Partïon dalu eu costau a'u treuliau eu hunain mewn cysylltiad â thrafod, paratoi, gweithredu, cwblhau a rhoi'r Cytundeb hwn ar waith.
- 20.15 Dylai'r Ymgynghorydd gydymffurfio â darpariaethau Safonau'r Gymraeg ac unrhyw gynllun neu safonau a fydd gan y Cyngor mewn grym o dro i dro.
- 20.16 Dylai'r Ymgynghorydd gydnabod fod gofyn i'r Cyngor, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyried sut mae'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu caffael, yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal y Cyngor. Dylai'r Ymgynghorydd sicrhau ei fod, wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghoriaeth, yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal y Cyngor yn unol â gofynion Manyleb y Gwasanaeth.